

[illegible]

Disgrifiwch ddiwyddiad dysgu a ddiwyddodd yn ystod eich lleoliad.

Adfyfyrwch ar beth ddiwyddodd, gan gysylltu diwyddiadau â damcaniaethau dysgu ac addysgu.

Gwnewch argymhellion ynghylch sut gallech chi wella'ch arfer eich hun yng ngoleuni hyn, a chrëwch boster i ddangos sut byddech yn defnyddio'r holl wybodaeth hyn i ddatblygu elfennau amgylchedd dysgu effeithiol.

Rhagymadrodd

Yn ystod sesiynau profiad lleoliad pâr fe wnes i ymweld ag ysgol dinas fewnol yn ardal ddiwyd o dde Cymru. Mynychir tri deg un o blant yn y dosbarth fe arsylwais. O fewn yr ysgol, dysgir y disgyblion i fod yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Fodd bynnag, mae'n broses galed sydd yn cymryd amser oherwydd dim ond dau o'r plant yn y dosbarth o dri deg un a arsylwir sydd yn perthyn i deuluoedd Cymraeg iaith gyntaf.

O ystadegau'r ysgol a darganfodais ar y wefan, mynychir pum can chwe deg pump o ddisgyblion, gan gynnwys y plant rhan amser a llawn amser yn y Dosbarth Meithrin. Gwelir fod ystadegau presenoldeb yr ysgol yn amrywio o 96.1% yn y tymor Hydref 1 a 93.9% yn y tymor Hydref 2.

Cynhalwyr yr arsylwi yn ddosbarth Cyfnod Sylfaen lle mae'r disgyblion yn dysgu'n rhydd. Gwelais fod disgyblion yn cael eu gwahaniaethu mewn pedwar grŵp yn seiliedig ar allu'r plentyn ond mae'r plant yn rhydd i gymysgu pan nad ydynt yn cwblhau tasg ffocws. Arsylwyd fod nifer o dasgau cyfoethogi yn digwydd pob wythnos a oedd yn seiliedig ar y thema 'Y Gryffalo' ac roedd y disgyblion yn ymwybodol bod rhaid cwblhau'r tasgau cyfoethogi erbyn dydd diwedd dydd Iau neu fore dydd Gwener.

Mae'r proses o adfyfrio yn un pwysig iawn. Gwelwn o waith Schön (1987) bod adfyfrio yn allweddol i wella arfer a strategaethau dysgu. Sicrhaf fy mod yn arsylwi ar y dosbarth gan ddangos ymwybyddiaeth o'r materion moesegol o anhysbysrwydd trwy beidio ag amgáu unrhyw fanylion personol yn fy sylwadau.

Trwy gydol fy amser yn arsylwi yn yr ysgol hon, sicrhaf fy mod yn arsylwi mewn agwedd parchus a moesegol. Gwneuthum yn siŵr i beidio gwnaed unrhyw ragfarn trwy gydol fy amser yn yr ysgol trwy sicrhau fy mod yn sylwi ar blant ar siawns yn hytrach na chanolbwyntio ar yr un unigolyn yn unig. Hefyd, fe wnes i sicrhau bod y pennaeth yr ysgol yn llofnodi ffurflen gydsynio ar gyfer tynnu lluniau a ffilmio (Gwelir ffurflen gydsynio yn yr atodiadau). Mae tynnu lluniau yn arf pwerus wrth arsylwi gweithgareddau tu fewn a thu allan o'r dosbarth.

Gwelir fod BERA (2011) yn amlinellu'r pwyntiau nodais uchod. Ni ellir enwi'r ysgol, plant neu'r staff heb eu caniatâd ac mae'n allweddol i ddilyn pwyntiau'r ddogfen yma wrth ysgrifennu'r traethawd i sicrhau ymwybyddiaeth.

Rhan 1: Arsylwi

Cyn i mi ymweld â'r ysgol i arsylwi fe wnes i ymchwilio i weld pa fath o strategaethau arsylwi a oedd yn briodol am yr aseiniad yma. Fe wnes i edrych mewn i waith gan Brodie (2013) lle mae hi'n trafod dulliau arsylwi a phwysigrwydd i ddewis y strategaethau priodol am yr ymchwiliad a gynhaliwyd. Gwelwyd fod nifer fawr iawn o strategaethau i ystyried, er enghraifft sosiogramau a samplau o amser a digwyddiad. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y strategaethau arsylwi, penderfynais i ddefnyddio dull ysgrifenedig ac o dynnu lluniau ar fy ffôn symudol. Sicrheais fy mod yn cael caniatâd o'r ysgol i ddefnyddio'r dulliau yma o arsylli i sicrhau fy mod yn dilyn nodau ac ymwybyddiaeth a amlinellwyd gan BERA (2011).

Dywedwyd Hobart a Frankel (2004) bod nifer o fanteision o ddefnyddio'r dull ysgrifenedig. Fe nodwyd trwy ddefnyddio'r dull ysgrifenedig rydym yn defnyddio sgil a defnyddiwyd yn ddyddiol, dim ond llyfr nodiadau a phen sydd angen a gall y dull digwydd ar unrhyw amser gydag ychydig o baratoi yn unig. Dadleua Tassoni (2002) wrth ddefnyddio'r dull ysgrifenedig gallwn dim ond arsylwi am amser bach ar y tro, gall fod yn anodd cadw golwg ar bopeth sydd dyn digwydd yn y dosbarth a bod nodiadau manwl gorfod cael ei ysgrifennu syth ar ôl y digwyddiad i arbed anghofio manylion.

Er bod anfanteision i'r dull ysgrifenedig, dyma'r dull penderfynais i ddefnyddio. Roeddwn yn ymwybodol bod angen cadw ffocws ar yr arsylliad i gadarnhau fy mod yn

casglu'r wybodaeth briodol ar gyfer fy ymchwiliad. Sylwyd fod hyn yn bwysig oherwydd bod dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn brysur iawn gyda nifer o ddigwyddiadau yn digwydd ar yr un amser.

Pan gyrhaeddais yr ysgol fe wnaeth yr athrawes cyfarwyddo bod y plant yn astudio'r thema 'Y Gryffalo' am y tymor yma. Gwelwyd fod tasgau ffocws, cyfoethogi a parhaol i gyd yn seiliedig ar y thema ac yn enwedig ardal y goedwig sef cynefin 'Y Gryffalo' yn y stori. Trwy gwblhau'r tasgau a thrafod amdano'r stori yma roedd y plant yn dod yn fwy ymwybodol o nodweddion y goedwig ac yr anifeiliaid sydd yn byw yno sydd yn cysylltu yn dda gydag addysgu tu allan i'r dosbarth sef testun fy arsylliad.

Yn y boreau ar ôl gwasanaeth roedd y flwyddyn i gyd yn ymarfer gwasanaeth a oedd y plant yn perfformio i'w rhieni neu ofalwyr. Sylwyd fod y plant yn dysgu stori 'Y Gryffalo' trwyddo ddull Pie Corbett, gan ddefnyddio symudiadau wrth adrodd y stori. Gwelwyd fod y dechneg yn un llwyddiannus iawn wrth i'r plant dysgu'r stori yn gyflym gydag effaith mawr ar y geiriau a oedd yn gysylltiedig â'r symudiadau. Gwelais fod cyffro mawr wrth ymarfer y gwasanaeth a bod nifer mawr yn edrych ymlaen at adrodd y stori ar y cyd i'w rhieni neu ofalwyr yn yr wythnosau i ddod. Ar ddiwedd y sesiwn ymarfer, fe wnaeth yr athrawes esbonio i'r plant ein bod yn mynd ar daith i'r goedwig ar ôl iddyn nhw gael amser chwarae. O ganlyniad i hyn, fe wnes i benderfynu arsylwi ar y sesiwn yma o ddysgu tu allan i'r ystafell dosbarth ar gyfer yr aseiniad.

Mae'r ysgol wedi cael ei lleoli yn agos i ardal goedwigol felly mae'n daith fer iawn dros yr hewl i fynedfa'r goedwig. Nodwyd fod hyn yn fantais allweddol i'r ysgol wrth fynd a phlant i ddysgu tu allan i'r dosbarth oherwydd bod lefelau risg yn isel a bod dim costau teithio i'r goedwig oherwydd mae o fewn pellter cerdded.

Ar ddechrau'r sesiwn, gofynnodd yr athrawes i grwpiau gwyrdd a phorffor, sydd y mwyaf galluog, i ddewis pâr i fynd ar y daith i'r goedwig. Nodais hefyd fod y plant yn rhydd i ddewis ei phâr a bod dim gwahaniaethu yn digwydd yn ystod y dasg yma, felly dewisodd y mwyafrif o'r plant un o'i chyfoedion. Roedd hyn yn broses cyflym iawn heb unrhyw anawsterau. Sylwais fod rhai plant yn cyffroes a rhai plant ddim yn chwilfrydig o gwbl. Gofynnais i'r disgyblion beth oedd eu teimladau amdano'r daith tu allan i'r dosbarth, dyma esiamplau o fy atebion:

“Rwyf fethu aros mynd allan o’r dosbarth Syr, mae lot gwell da fi i ddysgu tu allan”

“Oes rhaid i ni fynd allan Syr? Fi eisiau aros ti fewn a chwarae ar yr iPads”

“Lle i ni’n mynd? Y goedwig? Fi’n hoffi’r goedwig!!”

Sylwais fod patrwm yn deimladau’r disgyblion i ddysgu tu allan i’r dosbarth. Nodais fod y bechgyn yn llawer mwy brwdfrydig na’r merched. Roedd yna lawer o gyffro ynghylch y bechgyn wrth i ni drafod amdano’r daith, hyd yn oed bod y disgyblion dim yn ymwybodol o’r dasg a oedden yn cwblhau pan oedden nhw allan o’r dosbarth. Gofynnais i’r merched pam bod gwell da nhw fod yn y dosbarth yn hytrach na thu allan a sylweddolais fod dim gwir reswm ganddynt, dim ond bod gwell gyda’r merched i fod mewn tu fewn. Meddyliais fod hyn yn ddiddorol iawn wrth i mi edrych i mewn i’r strategaeth dysgu yma o fewn yr ymchwiliad.

Yn nawr, roedd hi’n bellach amser i adael yr ysgol am y goedwig, felly yn y parau cerddwn ar draws yr hewl i’r ardal goedwigol. Gwelwyd fod y plant yn gweld yn frwdfrydig wrth i ni symud oddi wrth safle’r ysgol, gyda nifer dal yn gofyn lle oedden yn ymweld â rhai yn gofyn a oedden yn mynd ar fws. Roedd yna tua thri deg yn y grŵp a wnaethom fynd allan ar y daith a phedwar o athrawon, felly yn ddigonol i reoli’r plant.

Cyrhaeddodd y goedwig a chyflwynodd yr athrawes y dasg i’r disgyblion. Y dasg oedd i’r plant i ddod yn ymwybodol a nodweddion allweddol y goeden, gwelwyd fod rhaid i’r plant dod yn gyfarwydd â geirfa’r boncyff, brigau a deilen y goeden. Roedd rhaid i’r disgyblion casglu esiamplau o’r darnau yma a chasglu’r darnau iddyn nhw greu coeden eu hun ar y byrddau gwyn pan gyrhaeddodd ni nol ar safle’r ysgol. Felly, aeth y plant i gasglu esiamplau o nodweddion y goeden a sylweddolais fod gwaith pâr effeithiol yn digwydd. Nodais fod y plant yn trafod yn ddwys iawn amdano liw’r dail, siâp y boncyff a maint y brigau wrth iddynt benderfynu pa ddeunyddiau i ddewis i fynd yn ôl a nhw i’r ysgol. Cafwyd hon ei hyrwyddo gan yr athrawes ar ddechrau’r wers wrth drafod nodweddion fel grŵp cyfan i sicrhau bod y plant yn beth maen nhw’n ymchwilio amdano.



Ffigur 1. (Llun yr awdur, 2017) Disgyblion yn cwblhau'r dasg a chyflwynwyd gan yr athrawon.

Nodais fod ymddygiad y plant ar y cyfan yn wych. Gwelais fod mwyafrif o'r plant yn frwdfrydig iawn wrth gwblhau'r dasg gyda nifer yn cymryd rhan ac yn mynd mewn i fanylder wrth drafod nodweddion y goeden. Fodd bynnag, roedd rhaid ysgogi rhai unigolion i gwblhau'r dasg. Yn bennaf, merched oedd y rhain oedd yn gweld hi'n anodd cymryd rhan yn y dasg. Meddyliais am pam roedd hyn yn digwydd a wnes i geisio hybu nhw i ymchwilio yn fwy i mewn i'r amgylchedd ond cefais anhawster. Gofynnais iddyn nhw pam yr oedden nhw ddim yn weld yn frwdfrydig i wneud y dasg, dyma rhai o fy atebion:

“Dydw i ddim gwir eisiau mynd yn fudr, byddwn yn llawer gwell gen i wneud hyn y tu mewn.”

“Gallet ti helpu ni Mr. Edwards? Dydw i ddim eisiau cyffwrdd a'r dail gwlyb.”

Mewn cyferbyniad, pan wnes i gwestiynu'r plant eraill wrth gwblhau'r dasg cefais ymateb gwahanol. Sylwais fod y plant yn gwerthfawrogi'r cyfle o fod allan yn y maes wrth ddysgu. Dyma esiamplau o fy atebion ar ôl gofyn y plant am eu barnau:

“Edrych arno beth yr wyf wedi casglu!! Mae lliw'r dail yma yn newid, ac mae tyllau arno'r dail!”

“Mae'r boncyff yn enfawr, edrych ar fel mae'n teimlo, mae'n teimlo yn garw! Rhaid bod yn ofalus iawn wrth drafod y boncyff!”

“Rwy'n hapus pan rydym yn dod allan o'r dosbarth, rwy'n hoffi teimlo pethau newydd gyda fy ffrindiau.”

Cefais syndod arno ba mor angerddol oedd rhai o'r plant pan oeddent yn trafod am y cyfleoedd mewn dysgu yn amgylcheddau ymarferol.

Erbyn nawr, roedd hi'n amser dychwelid yn ôl i'r dosbarth. Gwelwyd bod yr athrawon yn trefnu'r plant yn ôl mewn i'r parau ac yn llinell i gerdded yn ôl. Nodais fod y disgyblion yn hapus i wneud hyn heb unrhyw anhawster eto. Cefais syndod arno ymateb ac ymddygiad y plant achos ar y cyfan roedd yn wych, doedd dim rhaid i'r athrawon defnyddio unrhyw strategaethau reolaeth ymddygiad ond am air gydag un neu ddwy yma ac acw. Nodais fod hyn yn wahanol i pan oedd y plant yn yr ystafell ddosbarth lle'r oedd technegau ymddygiadol yn fwy amlwg. Meddyliais a oedd hyn y cysylltiedig â rhoi cyfrifoldeb i'r plant wrth iddyn nhw adael amgylchedd rheoledig i ardal lle maent yn rhydd i grwydro eu hamgylchedd yn amlwg gyda ffiniau, ond ffiniau sy'n llai amlwg i'r disgyblion. Gallwn ofyn y cwestiwn a ydy'r plant yn ymddwyn yn fwy aeddfed wrth iddyn nhw gael fwy o gyfrifoldeb yn ardal tu allan o'i 'parth cysur', hyd yn oed yn y Cyfnod Sylfaen.

Pan gyrhaeddodd ni nol yn yr ysgol y dasg i gloi'r wers oedd i'r plant i ddefnyddio'r deunyddiau a chasglwyd i greu coeden ar eu byrddau gwyn yn grwpiau gan amlinelli'r nodweddion a thrafodwyd. Ceir sylw arno ynganiad a sillafu geiriau boncyff, brigau a deilen wrth iddyn nhw sillafu a thrafod yn ôl yn y dosbarth. Gwelwyd fod y plant ar y cyfan yn nawr yn trafod geiriau yma gyda hyder wrth i mi gwestiynu'r grwpiau. Gall hyn ddangos trwy wneud tasgau yn ymarferol, efallai bod y disgyblion yn medru dysgu yn fwy effeithlon ac mae'n dod yn fwy cofiadwy oherwydd roedd ganddynt brofiad ymarferol.



Ffigur 2: (Llun yr awdur, 2017) Disgybl yn cwblhau'r dasg i gloi'r wers.

Rhan 2: Cysylltu

Dywed MacBlain (2014) bod datblygu dealltwriaeth lawnach o ddysgu yn yr 21ain ganrif yn hollol bwysig ac nid yn unig yn gofyn am guddio'r dylanwadau hanesyddol a diwylliannol sydd wedi galluogi ein safle yn nawr heddiw ond mae'n bwysig i ni sylweddoli bod y ffordd rydym yn addysgu yn newid yn y dyfodol agos. Amlinellwyd pwynt MacBlain yn ddogfen Dyfodol Llwyddiannus Donaldson (2015) a'i ddadl o blaid newid a'r pwysigrwydd i ail-werthuso'r cwricwlwm yng Nghymru. Gwelir fod y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno o Ebrill, 2019 ac yn lansio dros Gymru yn 2022.

Trafodwyd MacBlain (2014) bod gwahaniaeth yn y cenedlaethau presennol a gorffennol wrth drafod profiadau yn chwarae yn yr awyr agored. Nodwyd os gofynnwch i'r cenedlaethau gorffennol am yr 'hen ddyddiau da' clywch am ware tu allan o gynnar yn y bore nes bod yr haul yn machlud. Fodd bynnag, yn y presennol mae plant yn

gwastraffu gormod o amser o flaen sgrin sydd yn rhwystro datblygiad y plentyn a'u dealltwriaeth o'r byd. Mae'n creu problemau wrth adeiladu dealltwriaeth o gydweithrediad, ffiniau, perthnasau ac yn y blaen. Ysgrifennwyd MacBlain (2014) am esiampl o Ned sydd yn chwech oed ac effeithiau o ddylanwad teledu ar ei fywyd bob dydd yn yr amser presennol. O'r amser mae Ned yn codi yn y bore, mae amser rhydd Ned yn cael ei chanolbwyntio ar gemau fideo neu'r teledu. Oherwydd bod Ned dim yn cymryd diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored megis beicio, dringo a rhedeg, gwelwyd fod hyn yn effeithio ar ei ddealltwriaeth i gymdeithasu ac yn rhwystro datblygiad llwybrau synhwyrdd-niwrol yn yr ymennydd. Gofynnwyd a bai sydd gyda'r rhieni am gyfyngu dealltwriaeth eu plant o'r byd tu allan o'i thŷ?

Ymhellach, trafodwyd Campbell (2011) a Curtis (2013) bod nifer o ffactorau yn achosi'r lleihad mewn chwarae tu allan. Amlinellwyd fod rhieni anhyblyg, lleihad mewn ardaloedd gwyrdd yn y gymuned, rheolau llym ar gemau pêl ar ystadau tai a thechnoleg yn rhannu'r bai am y lleihad. O ganlyniad i hyn, gwelwyd fod sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd yn cael ei addysgu yn y dosbarth wedi lleihau'r cyfleoedd o dasgau tu hwnt o'r ystafell dosbarth.

Gall y drafodaeth gan MacBlain uchod cael ei chysylltu gyda gwaith Curran (2012) lle trafodwyd os bod plentyn yn amgylchedd lle maent yn cael ei ddeall mae ei hunan barch yn datblygu. Trwy wella ei hunan barch maent yn amgen ei hunan hyder ac o ganlyniad i hyn gwelwyd cysylltiad gyda'i amgylchedd. O ganlyniad i'r camau yma mae'r syniad o gariad yn cael ei amlinelli, dywed o waith Fromm (1975) y pedwar elfen yw gofal, cyfrifoldeb, parch a gwybodaeth. Felly, os oes gan blentyn ddylanwadau gan eu rhieni a'r amgylchedd awyr agored, maen nhw'n fwy galluog i ddatblygu'r hyn a nododd Curran a Fromm yn eu hymchwil. Os na, trafodwyd MacBlain et al (2006) fod unigolion yn cael anawsterau yn yr amser maent yn addysg ffurfiol.

Cytunwyd Day (2007) bod plant yn cael ei rhwystro yn eu datblygiad wrth aros tu fewn a ysgrifennwyd "Children shut indoors too long either go brain-dead or wild" (Day, 2007). Trafodwyd amdano'r syniad o adael y plant allan ar y buarth amser chwarae a chinio yn dal i gyfyngu'r plant, gall creu'r syniad o fod mewn carchar i'r disgyblion wrth iddynt edrych allan ar y mannau agored tu hwnt i safle'r ysgol. Gwelir fod pwysigrwydd o roi cymeriad i amgylchedd, nid dim ond gweld gwair gwyrdd sydd yn mynd i hybu

datblygiad y plant. Gallai rhywbeth cyn lleied â gardd mewn ysgol fod yn faes dysgu awyr agored cyntaf i blentyn a gall yr effaith hon fynd yn bell i ddylanwadu ar fywyd awyr agored y plentyn wrth iddynt dyfu i fyny.

Ymchwiliwyd Rigg a Lewis (2016) i mewn i ystadegau'r ymddiriedolaeth genedlaethol lle y sonnir fod plant ar gyfartaledd yn y presennol yn gwario un awr y dydd y tu allan i gymharu â chenedlaethol gorffennol yn gwario tair awr y dydd y tu allan (Sing, 2014). Adroddir bod plant dyddiau yma ddim yn mwynhau bod tu allan o'r tu. Gallaf ddadlau gyda'r datganiad yma o'm canfyddiadau. Yn bennaf, sylweddolais fod y bechgyn yn llawer mwy brwdfrydig o fod tu allan na'r merched, tybed a dderbynnir hyn yn ehangach hefyd. Trafodwyd hyn gan Magon (2009) lle ysgrifennwyd amdano ei phrofiadau dysgu a sylwodd hi fod bechgyn a merched yn dysgu'n wahanol. Gwelwyd fod strwythur yr ymennydd a gweithrediad gwybyddol yn wahanol yn gweithio'n wahanol yn y ddau ryw. Amlinellwyd hyn hefyd gan Gurian a Stevens (2004) bod rhesymau fod merched yn datblygu'n well yn elfennau llythrennedd a rhifedd i gymharu gyda gweithgareddau ymarfer corff a gemau fideo. Dadleua Feng, Spence a Pratt (2007) bod merched sydd yn chwarae llawer o gemau fideo yn medru deall gemau anhysbys yn well na bechgyn sydd ddim yn chwarae gemau fideo yn aml. Mae Feng Spence a Pratt yn mynd ymlaen i ddatgan bod manteision i brosesu gweledol i'r ddau ryw heb lawer o ymarfer wrth chwarae'r gemau fideo.

Pwynt allweddol a godwyd gan Rigg a Lewis (2016) a oedd sicrhau bod y plant yr ydym yn addysgu yn gyflogadwy yn y dyfodol. Yn y bôn, gwelwyd fod hyn yn rhan allweddol o'ch swydd fel addysgwr i sicrhau bod y disgyblion yn barod am y byd go iawn. Amlinellwyd cyflogwyr yr un sgiliau wrth edrych am weithwyr sef hyblygrwydd, ymrwymiad ac ymddiriedaeth i enw ychydig. Mae'r elfennau yma i gyd yn gallu cael ei ddatblygu wrth addysgu sgiliau sydd yn gysylltiedig o ddysgu yn y gymuned tu allan o'r dosbarth. Trafodwyd Rigg a Lewis (2016) ymhellach ar y pwyntiau o'r gymuned ac un o'r nodau o addysgu yn yr ysgol gynradd yw cyfrannu at y gymuned leol. Felly, mae'n allweddol i'r disgyblion a'r ysgol i agor i'r gymuned leol i ddatblygu'r sgiliau.

Gwelwyd o waith ymchwil i farn plant am eu hardaloedd gorau i ddysgu gan Richards (2010) bod gwell iddynt ddysgu yn ardaloedd mwy cyfoes sef ardaloedd allanol neu berfformio. Gwnaeth yr astudiaeth yma cael ei ffocysu ar saith deg o blant yn y Cyfnod

Sylfaen. Amlinellwyd, yn ddiddorol, fod yr un farn gan fechgyn a merched amdano eu hoff leoliad dysgu sydd yn wahanol i fy nghanlyniadau wrth gwestiynu'r disgyblion yn ystod yr amser arsylwi. Nodwyd yr ymchwiliad taw dyma'r ardaloedd mae'r disgyblion yn dewis pan faent yn dysgu yn rhydd yn hytrach na phan faent yn cwblhau tasgau ffocws. Felly, gallwn ofyn y cwestiwn a ydy'r plant yn dewis yr ardaloedd hyn achos bod dim arweiniant gan oedolion? Gwelwyd fod yr ymchwil yn casglu i ddangos fel athrawon mae'n allweddol i ni sicrhau ei'n bod yn medru creu ardaloedd hwylus i ddysgu os na allwn gyfyngu datblygiad ein disgyblion.

Fel y soniwyd yn flaenorol yn fy nhrafodaeth amdano gwricwlwm newydd 'Dyfodol Llwyddiannus' sydd yn cael ei chyflwyno erbyn 2022 gan yr athro Graham Donaldson gwelwyd fod dwy o'r ardaloedd a chanolbwyntiwyd i'w iechyd a lles a chelfyddydau mynegiannol. Gallwn gysylltu'r rhaglen ysgolion coedwig gyda'r elfennau yma. Yn y rhaglen ysgolion coedwig mae disgyblion yn dysgu yn ardaloedd awyr agored fel arsyllwyd yn yr aseiniad yma. Gwelwyd o waith ymchwil sydd yn seiliedig ar y rhaglen fod disgyblion sydd wedi mynychu'r gweithgareddau fod sgiliau hunan hyder, sgiliau cymdeithasu, sgiliau trafod, cymhelliant a chrynodiad, sgiliau corfforol a gwybodaeth a dealltwriaeth i gyd yn datblygu yn ddramatig. Wrth i'r plant gwellhau'r sgiliau yma i gyd rydyn ni'n eu cyflwyno i safbwyntiau newydd ac effeithiau ehangach lle maen nhw'n cymryd y sgiliau a ddysgwyd ar y gweithgareddau gartref i'w rhieni. O ganlyniad i hyn gall rhieni dod yn fwy cysylltiedig â'u plant mewn amgylcheddau awyr agored sydd yn allweddol i ddatblygiad y plentyn.

Dadleuwyd UNESCO (2010) bod rhai anfanteision i addysgu tu hwnt i'r dosbarth. Yn bennaf maent yn rhwystrau i'r athro nid y plant oherwydd bod llawer mwy o gynllunio gorfod cael ei gwneud cyn gwers tu allan o'r dosbarth na wrth addysgu ar safle'r ysgol. Nodwyd fod llawer mwy o risgiau iechyd a diogelwch i ystyried ac mae'n bwysig i sicrhau cadarnhad o rieni eu bod yn caniatáu i blant i adael safle'r ysgol gymryd rhan mewn gwersi. Gwelwyd hefyd bod rhaid sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd gyda'r ardal yr ydych yn ymweld gydag ac i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gwybod beth i wneud os bod rhywbeth yn mynd o'i le, er enghraifft os bod nhw yn mynd ar goll o'r grŵp.

I atal risgiau mae'n bwysig i'r athrawon defnyddio arweinyddiaeth gyfarwydddeb pan ydynt allan ar y maes yn addysgu. Defnyddiwyd UNESCO (2010) esiampl o fynd a phlant i ardal ar lan y môr lle mae pwll creigiau a bod hi'n bwysig sicrhau bod y disgyblion yn cadw i ffwrdd o'r perygl ac i wneud yn siŵr bod pob unigolyn yn gwisgo gwisg briodol i ymweld â'r safle.

Rhaid rhoi cydnabyddiaeth hefyd i'r ffaith mae'n allweddol bod yn gynhwysol i'r plant i gyd. Gall hyn fod yn heriol os oes angen cymorth un i un ar blentyn neu os oes anabledd, er enghraifft, gall mynediad i gadeiriau olwyn fod yn anodd mewn ardaloedd anghysbell. Mae'n hefyd yn bwysig nodi y gall tywydd garw ohirio ymweliadau ar ôl llawer o waith gynllunio, sy'n golygu bod yn rhaid i'r athro sicrhau bod cynllun arall ar gyfer y diwrnod neu wers pe bai hyn yn digwydd.

Felly i gloi, ar ôl ystyried y dystiolaeth i gyd, gwelwyd fod hi'n allweddol i sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion dysgu tu allan i'r dosbarth. Nodwyd Donaldson (2015) bod rhaid i ni sicrhau bod plant yn dod yn 'dinasyddion moesegol a gwybodus' a trwyddo'r dechneg addysgu yma medrwn ni fel addysgwyr fod yn llwyddiannus o gwblhau'r nod yma.

Rhan 3: Adfyfyrio ac Arloesi

Amcan yr adran hon yw creu amgylchedd dysgu delfrydol wrth gyfeirio at fy arsylwadau ac ymchwil i gyfiawnhau fy mhenderfyniadau wrth greu esiampl o fy amgylchedd dysgu delfrydol gan ddefnyddio poster proffesiynol.

Canolbwyntir fy amgylchedd ar y Cyfnod Sylfaen a'r elfen o dysgu trwy chwarae ac i sicrhau bod dysgu traws cwrwclaid yn cael ei cwblhau ar ôl gwaith Donaldson (2015) yn yr ardaloedd yn fy ystafell dosbarth.

Nodwyd gan nifer o arbenigwyr o'r pwysigrwydd o ddysgu trwy chwarae gan gynnwys Montessori (1949), Piaget (1976), Vygotsky (1978), Bruner (1986) i enwi ddim ond ychydig. Maent i gyd wedi creu modelau sydd yn dangos nifer fawr o amgylchoedd a strategaethau sydd yn allweddol i ddatblygiad y plentyn yn ystod y Cyfnod Sylfaen ac

mae'n bwysig i addysgwyr creu profiadau sydd yn frwdfrydig gyda pherthnasoedd cryf gyda'r plant a'r pwysigrwydd i ddeall sut mae'r plant ifanc yn dysgu.

Ardal Chwarae Rôl

Gwelwyd fod ardal chwarae rôl yn allweddol i unrhyw ardal yn ddosbarth Cyfnod Sylfaen. Trwy weithio a chwarae yn yr ardal yma mae disgyblion yn atgyfnerthu eu sgiliau trafod, cyfathrebu a gweithio fel tîm. Gallent hefyd cysylltu tasgau yn yr ardal yma gyda thema'r dosbarth megis gwisgo fel cymeriadau hanesyddol ac mae hyn yn galluogi'r plant i berthnasu â'r cymeriadau maen nhw'n eu chwarae.

Nodwyd Grigg (2015) trwy alluogi i blant i ware rôl rydym yn atgyfnerthu eu gwybodaeth: 'In sum, play enables young children to make sense of their world, to create new ideas, to act out every day experiences, develop self-confidence and social skills and manage their feelings'.

Gallwn hefyd defnyddio'r ardal yma am weithgareddau rhifedd er enghraifft gweithgaredd siop. Mae pwyslais o'r gallu i ddefnyddio arian ac i ddod yn gyfarwydd â bywyd bod dydd yn allweddol yn ddatblygiad plant yn y Cyfnod Sylfaen. Trwy roi'r plant yn y gweithgareddau bywyd go iawn hyn, mae'n annog eu dysgu o'r prosesau sydd yn digwydd o ddydd i ddydd.

Ardal Meddwl

Mae'r ardal yma yn seiliedig ar adfyfrio'r plentyn neu ardal gallent ddod i ymlacio os oes angen adael sefyllfa elyniaethus yn y dosbarth. Gwelwyd fod yr elfen o hunan asesiad yn bwysig wrth i blant gwirio gwaith eu hun neu waith partner. Trwy gwblhau hunan asesiad nodwyd Ioannou-Georgiou a Pavlou (2003) ei'n bod yn gwellhau'r dysgu'r plant trwy gymhelliant, mwynhad a dealltwriaeth o agweddau pwysig o'u gwaith. Mae Ioannou- Georgiou a Pavlou (2003) yn parhau i esbonio bod hunan asesiad yn offeryn allweddol i ymestyn dysgu plant yn eu gwaith llythrennedd.

Arsylwais ar y dull golau traffig tra bod i wedi bod allan yn yr ysgol. Gwelwyd fod hyn yn ddull llwyddiannus iawn wrth i blant hunan asesu eu gwaith wrth edrych ar y meini

prawf llwyddiant a osodwyd ar ddechrau'r dasg. Hefyd, mae'r dull yma yn galluogi i ni fel addysgwyr i glywed llais y plant wrth i ni ddeall beth yr ydynt yn mwynhau ac eisiau i ddysgu amdano i sicrhau ei'n bod yn ymgysylltu gyda'r disgyblion.

Nawr i gyffwrdd ar ochr ymddygiad yr ardal, teimlaf fod yn hollol bwysig i ddarparu ardal lle gall plentyn ddod i ddianc rhag sefyllfaoedd gelyniaethus iddyn nhw a allai arwain at ymddygiad gwael gan yr unigolyn. Gwelwyd fod llywodraethau heddiw yn deall bod cysylltiad rhwng ymddygiad gwael a dysgu. Nodwyd yr House of Commons (2011) 'Good order is essential in a school if children are to be able to fulfil their learning potential' felly mae'n allweddol i ni fel addysgwyr i ddarparu strategaethau effeithiol lle mae ymddygiad gwael yn medru niwed ddatblygiad y disgyblion. Meddyliaf trwy ddarparu ardal lle gaiff disgybl ddod i ymlacio yn sefyllfaoedd fel hyn gallwn atal y broblem cyn iddo ddod yn fater mwy aflonyddgar sydd yn medru rhwystro gwers i bawb.

Ardal TGCH

Mae'r ddibyniaeth o TGCH yn y gweithle yn golygu bod rhaid inni fod yn drylwyr wrth addysgu sgiliau technoleg i'n disgyblion. Mae'n allweddol bod pob ystafell dosbarth yn cynnwys ardal TGCH erbyn nawr ac mae Donaldson (2015) yn amlinelli bwysigrwydd o'r gallu i blant i ddefnyddio technoleg i ddatrys problemau ac i ymchwilio. Nodwyd Sanghani (2013) fod cenhedlaeth newydd sef 'iTods' lle mae 60% o blant tair oed a 40% o blant dwy oed yn defnyddio iPads yn rheolaidd.

Gwelwyd fod pwyslais heddiw ar 'e-learning' ar safleoedd fel hwb ac j2e. Wrth arsylwi, sylweddolais fod disgyblion yn cwblhau tasgau drwy ddefnyddio eu cyfrifon hwb ac j2e yn aml. Arbedwyd eu gwaith ar eu cyfrifon fel tystiolaeth o ddysgu TGCH yn y dosbarth. Arsylwais hefyd bod plant yn mor gyfarwydd a defnyddio iPads yn hytrach na gliniaduron wrth iddyn nhw geisio defnyddio'r gliniadur fel dyfais sgrin gyffwrdd felly mae'n allweddol ei'n fod yn medru dysgu'r sgiliau craidd i ddefnyddio pob math o dechnoleg yn llwyddiannus. Mae'n bwysig hefyd i alluogi bod llawer o le i'r plant yn yr ardal yma i gwblhau tasgau yn ardal hwylus. Gwelwyd fod plant yn medru cael cydbwysedd rhwng gwaith ysgrifenedig a gwaith ar y teclynnau TGCH.

Wal Bwriadau

Penderfynais gynnwys ardal yma yn fy amgylchedd dysgu delfrydol oherwydd gallwn weld bod llais y plant yn cael ei glywed yn y dosbarth. Gofynnwyd i'r plant beth hoffant nhw eu dysgu yn y tymor ac i greu un bwriad erbyn diwedd y tymor i gyrraedd, er enghraifft gwella sillafu. Mae'r plant trwy hyn yn cael ymdeimlad o falchder a dealltwriaeth bod hyn yn eu dosbarth nhw, hefyd gallwyd annog plant i fynychu'r ysgol i ehangu eu gwybodaeth ac i gwblhau eu bwriad a nodwyd ar ddechrau'r tymor.

Gwelwyd fod hyn yn cyffwrdd braf wrth i blant sylweddoli eu bod wedi cyrraedd eu nodau ac yn eu hysbrydoli i fynd ymlaen i gwblhau targedau ehangach. Sicrhawyd bod yr ardal yma yn un lliwgar, a hyd yn oed gall y plant dewis sut i addurno'r wal yma i gyfleu'r syniad o falchder yn y dosbarth. Trwy hyn gallwn hefyd cyflwyno rhieni i ddysgu eu plant a'r bwriadau a goswyd. Nodwyd New (2007) bod plant yn fwy tebygol o ffynnu pan fydd yr ysgol a'r rhieni yn cydweithio'n effeithiol.

Casgliad

I grynhoi, mae'r arsylwad yma wedi galluogi trafodaeth amdano'r manteision ac anfanteision o addysgu tu allan i'r dosbarth. Yn bennaf, gwelwyd fod nifer fawr o fanteision wrth greu gweithgareddau tu hwnt i'r ystafell dosbarth ac yn enwedig wrth i gwricwlwm newydd 'Dyfodol Llwyddiannus' Donaldson (2015) dod i fodolaeth. Yn fy marn i mae'r manteision yn gorbwyso'r anfanteision wrth i ni weld y datblygiad anhygoel mae'r disgyblion sydd yn elwa o ddysgu tu allan i'r dosbarth.

Gwelwn hefyd y pwysigrwydd o ddarparu amgylchedd dysgu delfrydol i sicrhau bod y plant yn medru cyrraedd eu llawn potensial. Meddyliaf wrth ddarparu ardaloedd TGCH, wal bwriadau, ardal meddwl ac ardaloedd chwarae rôl gallwn gyfoethogi'r hyn mae'r plant yn eu dysgu. Wrth greu'r ardaloedd yma gobeithiwyd bod disgyblion yn fwy parod i ddysgu ac yn dangos balchder yn eu hardal dysgu. Felly, trwy gwblhau hyn gallwn ni fel athrawon rydym yn medru rhoi'r profiad gorau i fod yn llwyddiannus yn eu bywydau.

Llyfryddiaeth

- 1) BERA (2011) Ethical guidelines for education (Ar-lein). Ar Gael:
<http://content.yudu.com/Library/A2xnp5/Bera/resources/index.htm?referrerUrl=http://free.yudu.com/item/details/2023387/Bera> (Mynediad ar: 11eg o Hydref, 2017).
- 2) Brodie, K (2013) Observation, Assessment and Planning in the Early Years - Bringing It All Together
- 3) Bruner, J. (1986) Actual Minds, Possible Worlds, London: Harvard University Press
- 4) Campbell, D. (2011) 'Children growing weaker as computers replace outdoor activity' The Observer, 21 Mai, 2011.
- 5) Curran, A. (2012) Autism and the brain's working: how far have we got? Debate, 144 5-6 Leciester: The British Psychological Society.
- 6) Curtis, P. (2013) 'How technology is changing childhood'. The Telegraph, 24 o Rhagfyr, 2013.
- 7) Day, C & Midbjer, A. (2007) Environment and Children: Passive Lessons from the Everyday Environment.
- 8) Feng, J., Spence, I. & Pratt, J. (2007). Playing an action video game reduces gender differences in spatial cognition. Psychological Science, 18(10), 850-855.
- 9) Fromm, E. (1975) The Art of Loving. London: Uwin Books.
- 10) Grigg, R. (2015) Becoming an Outstanding Primary School Teacher. Routledge New York.
- 11) Grigg, R & Lewis, H (2016) A-Z Guide to Out-of-class Learning. Bloomsbury London.
- 12) Gurian, M. & Stevens, K. (2006). How boys learn. Educational Horizons, 84(2), 87-93.
- 13) House of Commons (2011) Behaviour and Discipline in Schools, London: House of Commons.
- 14) Hobart, C & Frankel, J (2004) A Practical Guide to Child Observation and Assessment

- 15)Ioannou-Georgiou, S. & Pavlou, P (2003) Assessing Young Learners. Oxford University Press.
- 16)MacBlain, S. (2014). How Children Learn. SAGE Publications London.
- 17)MacBlain, S.F., McKee, B. and MacBlain, M.S (2006) The curriculum: confronting neglect and abuse, Academic Exchange Quarterly, 10 (2): 87-191.
- 18)Magon, A (2009) Gender, the Brain and Education: Do Boys and Girls Learn Differently?
- 19)Montessori, M. (1949) The Absorbent Mind, New York: Dell Publishing Company.
- 20)New, R.S. & Moncrieff, C (2007) Early Childhood Education, An International Encyclopedia.
- 21)Piaget, J. (1976) The Child and Reality, New York: Penguin Books.
- 22)Richards, C. (2010) Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed. Athroniaeth, Ymchwil a Ymarfer. 'Tu fewn, tu allan a thuw hwnt: golwg ar y amgylchedd dysgu'. 43-61.
- 23)Sanghani, R (2013) "iTods" on the rise as 50 percent of UK toddlers use tablets', The Telegraph, 16 o Hydref.
- 24)Sing, A. (2014) 'Most children "play outside for less than an hour a day"'. The Telegraph, 11 o Orfennaf, 2014.
- 25)Schön & Schon, 1991. The Reflective Practitioner: How Professionals Think in Action, Aldershot: Arena
- 26)Tassoni, P (2012) Diploma in Child Care and Education.
- 27)UNESCO (2010) Teaching and Learning for a Sustainable Future, Module 26: Learning Outside The Classroom.
- 28)Vygotsky, L. (1978) Mind in Society, Cambridge, MA: Harvard University Press.

Lluniau Poster:

- 1) Ardal Allanol/Gardd y Dosbarth: Google Images (2017):
<http://owenmonarch.com/school-garden-project-ideas.html/useful-school-garden-project-ideas-also-designing-home-inspiration-with-school-garden-project-ideas>
- 2) Cwtsh Gwrandu: Llun yr Awdur (2017)
- 3) Ardal Carped: Llun yr Awdur (2017)
- 4) Ardal Meddwl: Llun yr Awdur (2017)

5) Ardal Chwarae Rôl: Google Images (2017)

<https://i.pinimg.com/736x/45/37/d6/4537d69760146541606b09329b0604df--computer-lab-design-computer-class.jpg>

6) Wal Bwriadau: Llun yr Awdur (2017)

7) Cornel Darllen: Llun yr Awdur (2017)

8) Ardal TGCH: Goodle Images (2017)

<https://i.pinimg.com/originals/35/29/71/352971d84a8ea5d0ee146cb6eb285ff2.jpg>

Atodiad:



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Ffurflen gydsynio ar gyfer tynnu lluniau a ffilmio

Datganiad

Rhaid i hyfforddeion dderbyn y cydsyniad ysgrifenedig isod gan y Pennaeth cyn tynnu lluniau o ddysgwyr, eu ffilmio neu wneud recordiad sain ohonynt.

Cytunaf i _____ sy'n gynrychiolydd i CAADOC, wneud y canlynol:

Tynnu lluniau

Gwneud fideo

Recordio ar dâp (Ticiwch fel y bo'n briodol)

Enw'r Pennaeth: _____ Llofnodwyd: _____

Enw'r Ysgol: _____

I'w gwblhau gan yr hyfforddai:

Os rhoddir caniatâd i mi, rwyf yn cytuno i ymddwyn yn ôl y foeseg a ymgorfforir o fewn Cod Ymarfer CyngACC ac ni fyddaf yn dosbarthu unrhyw ddeunydd o'r fath i gynulleidfaoedd y tu hwnt i awdurdodau'r Brifysgol heb eu caniatâd.

Enw'r hyfforddai: *HARRY EDWARDS*

Llofnodwyd: *H Edwards*

Rhif ffôn: *07578 233933*

Cyfeiriad e-bost: *harned93@gmail.com*

Rhaglen (e.e. BA Addysg/TAR Cynradd/TAR Uwchradd): *TAR CYNRADD*

Dyddiad:

Diolch am eich cydweithrediad.

Medi 2012